# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD
# 9 GORFFENNAF 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Patrick Heesom (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, Ray Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect a Paul Shotton

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Bob Connah (ar ran Dennis Hutchinson)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd; Prif Swyddog (Cynllunio a’r Amgylchedd); Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); a Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 10. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wrth y Pwyllgor y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor fod o’r Grŵp Annibynnol Newydd. Hysbyswyd yr Aelodau fod y Grŵp wedi penodi’r Cynghorydd Patrick Heesom ar gyfer y rôl.

O hyn ymlaen fe gadeiriodd y Cynghorydd Heesom weddill y cyfarfod. Cymerodd y cyfle i dalu teyrnged i’r Cynghorydd Ray Hughes fel y cyn Gadeirydd.

## 11. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 12. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2019.

Materion yn Codi

Cofnod 7: Papur gwybodaeth ar gyfyngiadau cyflymder gorfodol o 20mya yn Sir y Fflint – dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) er bod swyddogion yn gweithio ar gynlluniau posib fod Llywodraeth Cymru eto i benderfynu ar newid yn y ddeddfwriaeth.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 13. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A CHAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried. Cafwyd cyflwyniad byr gan y Prif Swyddogion ar y gwasanaethau o fewn eu portffolios er mwyn helpu'r Pwyllgor i feddwl am eitemau i'w cynnwys ar yr agenda yn y dyfodol.

Awgrymwyd y pynciau canlynol:

- Rheoli Adeiladu – yn cynnwys effaith newidiadau yn y farchnad archwilio adeiladau ac edrych ar gyfleoedd pellach i gyflawni gwasanaethau i gynghorau eraill
- Systemau draenio cynaliadwy
- Gwasanaeth Cefn Gwlad
- Cynllunio Gwastraff a Mwynau – yn cynnwys darparu gwasanaethau allanol ar draws y rhanbarth
- Cysylltedd Digidol
- Thema 'Cyngor Gwyrdd' yng Nghynllun y Cyngor i gynnwys gwasanaethau ynni, paneli solar, golau stryd a phlastig
- Ymateb y Cyngor i'r agenda Newid Hinsawdd
- Menter/Adfywio Canol y Dref – yn cynnwys proses Ardal Gwella Busnes i'w drefnu ar gyfer dechrau 2020
- Parciau Batris – helpu i addysgu cymunedau ar yr effeithiau
- Fflyd trydaneiddio
- Darparu mynwentydd a'r strategaeth
- Adolygu gwaith cynnal a chadw yn y gaeaf
- Gwasanaethau Masnachol
- Caniatáu gwastraff a llif data
- Canolfan Gyswllt
- Parcio ceir – costau, gorfodaeth a gwneud y mwyaf o incwm drwy drwsio peiriannau diffygiol yn brydlon
- Polisi codi tâl/mynegeio
- Safonau gwasanaeth
- Gorfodaeth
- Polisi torri gwair a pherfformiad (yn cynnwys ail-ddosbarthu'r safonau y cytunwyd arnynt) – yn cynnwys rheoli blodau gwyllt
- Effaith gwaith ffyrdd gan gwmnïau cyfleusterau
- Polisi cwrb isel ac arferion
- Biniau gwastraff gardd – maint, costau a'r posibilrwydd i ddarparu ail fin am ddim

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) i roi fersiwn diweddar i'r Aelodau o'r ddogfen drafft 'Pwy 'di Pwy' ar ôl ei orffen yn derfynol. Awgrymodd y Cynghorydd Evans i'r ddogfen derfynol gynnwys mwy o rifau cyswllt defnyddiol os yw'r ddogfen yn mynd i fod ar gael i'r cyhoedd.

Eglurodd y Prif Swyddog ei fod yn ddogfen dros dro nes bod y gwasanaethau hynny yn cael eu hymgorffori yn y Ganolfan Gyswllt. Tynnodd sylw at bwynt y Cynghorydd Hughes am rannu rhifau ffôn symudol gwaith y swyddogion.

Meddai'r Cynghorydd Bibby y byddai dogfen debyg gyda manylion cyswllt portffolios eraill yn ddefnyddiol.

Dywedodd y Cynghorwyr Dolphin a Hardcastle am argaeledd swyddogion ac amseroedd ymateb. Eglurodd y Prif Swyddogion am fanteision rhif canolog y Ganolfan Gyswllt (701234) ar gyfer cofnodi galwadau a chymryd camau dilynol. Roedd opsiynau yn cael eu hystyried i leihau'r amser disgwyl i'ch galwad gael ei ateb, a byddai casgliad o wahanol dimau mewn un Canolfan Gyswllt corfforaethol yn Ewloe yn golygu gwell cymhwysedd. Cafodd aelodau lleol eu hatgoffa i adael i'w Cydlynwyr Ardal wybod am unrhyw achosion penodol ar y manylion cyswllt â rannwyd eisoes.

Dangosodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad i'r Prif Swyddogion am eu cyflwyniadau manwl a gofynnodd iddyn nhw ddiolch i'r tîm Strydwedd am eu gwaith yn helpu cymunedau yn ystod y tywydd garw yn ddiweddar. Ategodd y Cynghorydd Carolyn Thomas hynny.

Yn ystod trafodaeth ar y pynciau a awgrymwyd, eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) am yr angen i wasanaethau torri gwair i gael ei wneud gan nifer o dimau oherwydd yr amrywiaeth o offer sydd ei angen. Ar finiau gwastraff gardd fe eglurodd mai diben yr adroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol oedd i sefydlu'r polisi mynegeio. Dywedodd y Cynghorydd Evans y dylai'r adroddiad fod wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor gyntaf.

Awgrymodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y rhestr o bynciau yn cael eu hystyried gan y swyddogion, ar y cyd â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, i gynnwys ystod o bynciau ar y cyd yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Cafodd hynny ei gynnig gan y Cynghorydd Bibby a'i eilio gan y Cynghorydd Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Diolch i'r swyddogion am eu cyflwyniadau ar eu portffolios;

(b) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo;

(c) Bod y rhestr o bynciau a nodwyd yn ystod y cyfarfod yn cael eu dadansoddi gan y swyddogion i lunio ystod o bynciau ar y cyd, i'w ymgynghori gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd;

(d) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(e) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth gwblhau'r camau gweithredu yn weddill.

## 14. ADOLYGIAD O SAFONAU'R GWASANAETHAU STRYD

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad yn gofyn am argymhelliad i'r Cabinet fabwysiadu'r safonau gwasanaeth Strydwedd a gafodd eu diweddaru ar ôl eu hadolygu. Perfformiad yn erbyn safonau – o dan y thema Cyngor Diogel a Glân yng Nghynllun y Cyngor 2019 – yn cael eu hadrodd fel rhan o broses monitro perfformiad newydd.

Yn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Bibby, fe gytunodd y Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd i ddarparu eglurhad bellach ar y cemegau a ganiateir i'w defnyddio ar gyfer cael gwared ar graffiti.

Cwestiynodd y Cynghorydd Connah i gael gwared ar rai o'r safonau. Cafodd ei hysbysu y byddai ymatebion i reoli pla yn parhau i gael eu monitro a bod biniau gwastraff/bocsys ailgylchu newydd yn cael eu casglu o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Tŷ.

Roedd gan y Cynghorydd Dolphin bryderon am gasgliadau bin heb eu casglu fwy nag unwaith, weithiau yn golygu ffordd gyfan. Yn ymateb i'r cwestiynau fe eglurodd y Prif Swyddog fod Goruchwylwyr Strydwedd ar gais yn gallu ymweld â Chynghorau Tref a Chymuned. Rhannodd ei rwystredigaethau am yr oedi gyda'r gwaith ar y goleuadau stryd gan Scottish Power a oedd allan o ddwylo'r Cyngor.

Yn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Evans fe eglurodd y Prif Swyddog y broses o gael gwared ar wrthrychau miniog oddi ar dir sy'n eiddo'r Cyngor a'r targedau ar gyfer glanhau strydoedd fel y cytunwyd gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd hefyd am yr uchafswm amser sydd ei angen i brosesu ceisiadau i gael cefnogaeth gyda chasglu biniau a'r gweithdrefn 3-cam a gytunwyd arno i ddelio gydag achosion o wastraff sy'n cael ei osod ar dop neu wrth ochr biniau.

Yn ôl cais y Cynghorydd Hardcastle cafwyd eglurhad manwl o'r broses tipio anghyfreithlon gan y Prif Swyddog gan adrodd nad oedd cynnydd yn y nifer o achosion.

Dyma'r Cynghorydd Chris Bithell yn annog Aelodau i godi ymwybyddiaeth o dîm Rheoli Pla y Cyngor oedd yn darparu gwasanaeth effeithiol i breswylwyr. Pan ofynnodd y Cynghorydd Gay am y meini prawf eithriedig ar gyfer y newidiadau hyn fe gytunodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) i ddosbarthu'r manylion.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Evans a'i eilio gan y Cynghorydd Dolphin.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn mabwysiadu'r safonau gwasanaeth Strydwedd yn Atodiad 1 o'r adroddiad, gan gynnwys yr ychwanegiadau a'r

agweddau i'w dileu a gynigir i'r rhestr ddiwygiedig o ganlyniad i'r newidiadau yn y portffolio.

## 15. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.05pm)

………………………….

**Y Cadeirydd**